



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Paratoi i Gychwyn y Ddyletswydd Economaidd- gymdeithasol

Mae'r dec hwn o sleidiau yn darparu gwybodaeth gyffredinol er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Datganiad a bwriad



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yw gweithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Un rhan o'r gwaith hwn yw cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol – ymrwymiad o fanifesto etholiad Prif Weinidog Cymru.

Bydd y ddyletswydd yn fecanwaith allweddol yn y broses o gynllunio adferiad Cymru yn sgil effaith Covid-19, gan wneud yn siŵr ein bod yn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed wrth inni gyflawni ein hymrwymadau ac Ailgodi'n Gryfach.

Yr elfennau cyfreithiol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Adran 45 o [Ddeddf Cymru 2017](#) yn datganoli'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu rhoi Rhan 1, Adran 1 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) ar waith – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Darn o ddeddfwriaeth y DU yw Deddf Cydraddoldeb 2010 ac nid oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid hynny.

Bydd y ddyletswydd yn gymwys i gyrff cyhoeddus perthnasol, yr ystyrir eu bod wedi bodloni'r 'prawf' o dan adran 2(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2020. Bydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Felly, beth mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei olygu i gyrff cyhoeddus?

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus **penodol**, wrth wneud **penderyniadau strategol** fel penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, **ystyried** sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau **anhydraddoldebau** sy'n gysylltiedig ag **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Diffinio'r Termau Allweddol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wrth fynd drwy'r sleidiau nesaf byddwn yn ystyried yr hyn y mae'r termau allweddol a ganlyn yn ei olygu wrth weithredu'r ddyletswydd:

- Penderfyniadau o natur strategol;
- Ystyried;
- Anghydraddoldebau o ran canlyniad;
- Anfantais economaidd-gymdeithasol.

i) Penderfyniadau o natur strategol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Yn gyffredinol, bydd penderfyniadau strategol yn benderfyniadau sy’n effeithio ar sut y mae’r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei ddibenion statudol bwriadedig (ei swyddogaethau o ran pennu’r pwerau a’r dyletswyddau y mae’n ei ddefnyddio i berfformio ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser ac ni fyddant yn cynnwys penderfyniadau ‘dydd i ddydd’ arferol.”

I rai gyrff cyhoeddus, caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud yn flynyddol yn unig, mewn achosion eraill, bydd angen eu gwneud yn amlach.

Bydd y ddyletswydd yn gymwys i **benderfyniadau strategol** newydd ac wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol.

ii) Ystyried:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Rhoi sylw i fater penodol mewn ffordd sy’n gymesur â’i berthnasedd.”

Mae sylw dyledus yn gysyniad cyfreithiol sydd wedi’i sefydlu yng nghyfraith cydraddoldebau. Dylai gyrff cyhoeddus ddeall y cysyniad hwn yn dda mewn perthynas â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae’n golygu rhoi sylw i fater penodol mewn ffordd sy’n gymesur â’i berthnasedd. Byddem yn disgwyl i’r un egwyddorion fod yn berthnasol i’r ddyletswydd hon.

Dylid dangos eich bod yn ystyried mater drwy ddefnyddio arferion sydd eisoes yn bodoli. Gallai hynny gynnwys prosesau asesu effaith, systemau ar gyfer trafod a chynnwys y gymuned a defnyddio tystiolaeth a data lleol.

iii) Anghydraddoldebau o ran canlyniad



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Mae anghydraddoldeb o ran canlyniad yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy o ran canlyniad rhwng y rheini sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth.”

Bydd cyrff cyhoeddus perthnasol mewn sefyllfa i ddylanwadu ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol penodol – dylent ddeall ym mhle y cânt yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus perthnasol adeiladu ar yr ymwybyddiaeth hon gan y byddant eisoes wedi cael mynediad i amrywiaeth eang o ddata meintiol a thystiolaeth arall gan gynnwys (nid yw'n rhestr drwyadl):

- [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru;](#)
- [Adroddiad Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru;](#)
- [Adroddiad A yw Cymru'n Decach? y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

iv) Anfantais economaidd-gymdeithasol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.”

Gall **anfantais economaidd-gymdeithasol** fod yn anghymesur mewn **cymunedau o ddiddordeb a chymunedau lleoedd**, gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniad, a all waethygu wrth ystyried **rhyngblethedd**.


- **Cymunedau o ddiddordeb** – gellir ystyried y rheini sy’n rhannu un neu fwy o’r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn gymunedau o ddiddordeb.
- Mae **Cymunedau lleoedd** yn cyfeirio at bobl sy’n gysylltiedig â’i gilydd oherwydd ble meant yn byw, gweithio, ymweld ag ef neu fel arall yn treulio rhan helaeth o’u hamser.

Enghreifftiau o anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae angen i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb o ran canlyniadau ar gyfer pobl sy'n dioddef anfantais gymdeithasol-economaidd.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio mewn modd cyfannol

Mae cyfleodd i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol drwy ddyletswyddau eraill. Er enghraifft:

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

- Pennu amcanion strategol sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig a thlodi. Cynnwys statws economaidd-gymdeithasol mewn Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Ymgynghori â phobl sy'n byw mewn tlodi fel rhan o waith ymgysylltu o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae casglu data yn nodi pa grwpiau a phobl sydd fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Rhoi'r pum ffordd o weithio ar waith.
- Pennu amcanion sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal.

I grynhoi...



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau strategol:

- ✓ yn ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl drwy ymgynghori ac ymgysylltu,
- ✓ yn deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- ✓ yn croesawu her a chraffu
- ✓ yn sbarduno newid yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r ffordd y mae llunwyr penderfyniadau yn gweithredu.

Paratoi i gyflawni'r ddyletswydd

Wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd, argymhellir bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn dilyn y camau isod:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflawni'r ddyletswydd bob dydd

Ceir enghraifft isod o sut y gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio pum cam i gyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd.

CAM 1: CYNLLUNIO

A yw'r penderfyniad yn benderfyniad strategol?

CAM 2: TYSTIOLAETH

Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais gymdeithasol-economaidd ac anghydraddoldeb posibl o ran canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?

A ydych wedi cysylltu a thrafod gyda'r rheini yr effeithir arnynt gan y penderfyniad?

A ydych wedi ystyried cymunedau a mannau buddiant?

CAM 3: ASESU A GWELLA

Beth yw prif nodau ac effeithiau posibl y cynnig?

Sut y gellid ailwampio neu wella'r cynnig er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd?

CAM 4: PENDERFYNWYR STRATEGOL

Diben y cam hwn yw galluogi penderfynwyr i gadarnhau bod sylw dyledus wedi'i roi, er enghraifft, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, aelodau byrddau a phwyllgorau. Dylent fodloni eu hunain bod y corff wedi deall y dystiolaeth a'r effaith debygol, a'i fod wedi ystyried a ellir newid y polisi er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau ac achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd.

CAM 5:

Y cam hwn yw'r broses o ddarparu dystiolaeth a chofnodi sut y cafodd 'sylw dyledus' ei roi. Dylai newidiadau i'r penderfyniad gael eu gwneud a'u cofnodi yn ystod y cam hwn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gefnogi cyrff cyhoeddus perthnasol i baratoi ar gyfer y ddyletswydd, mae [canllawiau](#) wedi'u llunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus perthnasol, a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylid anfon unrhyw gyfathrebiadau i:

DyletswyddEconomaid-Gymdeithasol@llyw.cymru